

Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y [Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol](#) ar [Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\)](#)

This response was submitted to the [Equality and Social Justice Committee](#) consultation on [Social Partnership and Public Procurement \(Wales\) Bill](#)

**SPPP 28**

**Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg | Response from: Welsh Language Commissioner**

---





Jenny Rathbone AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

27 Gorffennaf 2022

Annwyl Ms Rathbone,

## **Ymgynghoriad – y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod. Ymatebodd Comisiynydd y Gymraeg i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fil Drafft Partneriaeth Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ym mis Ebrill 2021. Fel yn yr achos hwnnw, rydym yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn o safbwynt polisi yn hytrach nag o safbwynt cyflogwr ac awdurdod contractio, fel y'i diffinnir yn y Bil. Rydym ar ddeall y bydd y Comisiynydd, fel awdurdod contractio, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Bil o safbwynt caffael cyhoeddus yn unol â Rhan 3 y Bil.

### **Caffael cyhoeddus a'r Gymraeg**

Cyfeirir yn aml at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y Memorandwm Esboniadol. Nodir bod y Bil yn ategu'r Ddeddf Llesiant, sy'n gofyn i gyrrff cyhoeddus weithredu mewn ffyrdd a fydd yn ceisio llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru (cymal 54). Eglura'r Memorandwm, "Ystyrir bod y themâu ym mhob un o nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn berthnasol i'r agenda partneriaeth gymdeithasol" (cymal 70). Croesawn hyn gan ei fod yn golygu y cynhwysir y Gymraeg yn yr agenda hwn, yng nghyd-destun y nod llesiant "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu". Rydym hefyd yn cefnogi'r gofyniad, a

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5–7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
post@comisiynyddygyymraeg.cymru  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5–7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.wales  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

---



amlinellir yn Nodiadau Esboniadol y Memorandwm, ar awdurdodau contractio i gyfrannu i'r eithaf at gyrraedd y nodau llesiant trwy eu gweithgareddau caffael cyhoeddus (cymal 65).

Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad at Safonau'r Gymraeg – sy'n uniongyrchol berthnasol. Effaith gosod dyletswyddau Safonau'r Gymraeg ar sefydliadau cyhoeddus yw bod dyletswydd statudol arnynt a disgwyl iddynt gydymffurfio â hwy. Heb iddynt wneud hynny, maent yn agored i wynebu sancsiwn. Mae cytundebau rhwng cyrff cyhoeddus a darparwyr trydydd parti sy'n gweithredu ar ran y cyrff cyhoeddus yn cynnwys gofynion penodol iawn fel nad yw cyrff cyhoeddus yn gwneud eu hunain yn agored i fethu cadw at ddyletswyddau iaith statudol.<sup>1</sup> Ceir pum dosbarth o safonau ac mae un yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau, a'r gallu i'w cyflenwi gan berson ar ran y corff, yn ogystal â gweinyddiad y broses dendro. Mae'r Senedd yn disgwyl i Gomisiynydd y Gymraeg gynnal cydymffurfiaeth y cyrff hyn â Safonau'r Gymraeg drwy weithrediad Polisi Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg. Mae'n bwysig, felly, bod unrhyw ddarpariaethau yn y Bil hwn yn gyson ag unrhyw ddarpariaethau sydd wedi eu cyflwyno yn rhinwedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a rheoliadau cysylltiedig.

## **Y Gymraeg yn y gwaith, gwaith teg ac allanoli gwasanaethau**

Bydd y Bil yn diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas' o fewn y nod presennol 'Cymru lewyrchus'. Mae sicrhau'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, i ddatblygu sgiliau Cymraeg neu i ennill sgiliau iaith newydd yn berthnasol ac yn ddisgwyliad sydd wedi ei bennu ar ffurf dyletswyddau penodol. Fel y disgrifiwyd uchod, mae'n bwysig eich bod fel Pwyllgor yn ymwybodol y ceir dosbarth o safonau sy'n berthnasol i'r gweithlu a gweinyddiad mewnlol corff yn ogystal â materion staffio a datblygu sgiliau. Bydd yn bwysig ystyried y Safonau Gweithredu yn y cyswllt hwn.

Mae'r safonau hyn yn berthnasol i'r amcan a ddisgrifir yn y Memorandwm Esboniadol, i "ddarparu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen ar y gweithlu i gael swyddi sy'n darparu

<sup>1</sup> Gweler [Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015 \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#).



gwaith teg” (cymal 25). Mae hefyd yn bwysig o ystyried dylanwad y sector cyhoeddus, hynny yw, “Mae’r sector cyhoeddus datganoledig yn gyflogwr sylweddol yng Nghymru. Mae’n effeithio’n uniongyrchol ar brofiad o waith y rhai sy’n gweithio ynddo a gall gael dylanwad anuniongyrchol ledled y sector cyhoeddus a’r economi ehangach drwy arwain drwy esiampl ar ddulliau blaengar o ymdrin â’i weithlu.” (cymal 27) Mae hyn mor berthnasol i’r bri a roddir i’r Gymraeg yn y gweithle ag i agweddau eraill o’r byd gwaith.

Mae safonau ynghylch defnyddio’r Gymraeg yn y gwaith hefyd yn berthnasol i’r adran Gwella Darpariaeth Gwasanaethau Cyhoeddus. Nodir, er enghraifft, “Nid yw’r rhai sydd agosaf at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus (gweithwyr a’u cyflogwyr) bob amser yn cymryd rhan yn y trafodaethau ynghylch penderfyniadau i wella gwasanaethau cyhoeddus, felly nid yw eu harbenigedd a’u dealltwriaeth yn cael eu defnyddio. Mae gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd gwell yn ystyried barn y gweithwyr a’r cyflogwyr sy’n darparu’r gwasanaethau hyn.” (cymal 29) Mae’n hollbwysig ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg sy’n ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus, a’r rhai sy’n darparu’r gwasanaethau hynny iddynt. Mae’r cyfle i ddysgu mewn swydd yn gyfle i’r rhai hynny sydd yn dymuno dysgu’r iaith Gymraeg fel sgil ac yn fater o degwch ieithyddol sydd yn ganolog i’r Safonau Gweithredu.

Mae dyletswyddau yn codi o Safonau’r Gymraeg hefyd yn berthnasol i bennod 2, cymal 26 y Bil sy’n ymwneud â chontractau allanoli gwasanaethau. Fel y mae’r Memorandwm Esboniadol yn ei nodi, “dylai prosesau contractio ac aildendro sy’n cynnwys staff sy’n trosglwyddo o gyrff gyhoeddus gael eu cynnal i sicrhau bod y telerau a’r amodau’n cael eu diogelu” (cymal 103). Rhaid sicrhau nad yw trefniadau trosglwyddo staff na chydweithio rhwng sefydliadau neu bartneriaid yn amddifadu staff o’r gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn hytrach, dylai trefniadau o’r fath hyrwyddo a datblygu cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gwaith. Mae gofyn cryfhau’r adran hon o’r Bil er mwyn nodi’r angen hwn. Yn hynny o beth, rhaid sicrhau bod y ‘cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a’r gweithlu’ y bydd gofyn i Weinidogion Cymru ei gyhoeddi yn unol ag adran 32 y Bil yn gwneud darpariaethau ynghylch yr hawl i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle a phob

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5–7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
post@comisiynyddygybraeg.cymru  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg

comisiynyddygybraeg.cymru

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5–7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.wales  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



dyletswydd yn codi o Safonau Gweithredu neu safonau eraill fel y'u ceir mewn rheoliadau perthnasol.

Y tu allan i ddarpariaethau'r drefn safonau mae lle hefyd i ystyried Rhan 6 Mesur y Gymraeg a'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

## **Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol arfaethedig**

Bwriedir creu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol a fydd yn gorff cyngori. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol (cymal 50), "Bydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn endid ar wahân i Lywodraeth Cymru." Hoffem eglurder, felly, ynghylch sut y bydd y Cyngor arfaethedig yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Rydym o'r farn fod rhaid rhoi rhagor o eglurder ac arweiniad ynghylch statws y corff yng nghyd-destun Mesur y Gymraeg a pha gamau ymarferol a gymerir er mwyn rhoi sicrwydd o safbwynt y corff yn defnyddio'r Gymraeg ac yn ystyried yr iaith o fewn cwrpas ei waith.

Nid yw'r Bil yn gofyn am ddealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg gan ddarpar aelodau'r Cyngor. Dylid cynnwys y gofyniad hwn ar glawr y Bil. O ystyried y ffaith y bydd y Cyngor yn rhoi "arweinyddiaeth genedlaethol i ddarparu cyfeiriad ac enghreifftiau o arfer da" (cymal 18) ac yn rhoi gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru "gyda'r nod o wella gwasanaethau cyhoeddus a llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru" (cymal 45), mae'n hanfodol bod ganddo arbenigedd a gwybodaeth am y Gymraeg yng nghyd-destun y materion hyn. Yn hynny o beth, rhaid cofio bod un dosbarth o Safonau'r Gymraeg yn ymwneud â'r angen i ystyried effaith polisïau ar y

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
post@comisiynyddygyymraeg.cymru  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.wales  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

---



Gymraeg wrth eu datblygu.<sup>2</sup> O ystyried ei rôl polisi, felly, credwn ei bod yn hanfodol bod y Cyngor yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg.

Rhaid sicrhau hefyd bod lle canolog i'r Gymraeg yng ngweithrediad y Cyngor o'r cychwyn. Dylid ystyried y Gymraeg yn holl drefniadau'r Cyngor, gan gynnwys yn y cyfarfodydd o bell a grybwyllir yn y Memorandwm Esboniadol (cymal 42). Cyfeirir yma at y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd drwy'r rhyngwrdd neu dros y ffôn am resymau hyblygrwydd ac effeithiolrwydd. Dylid ystyried sut i sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar pryd ar gael mewn amgylchiadau o'r fath, er mwyn hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Eto, buasai eglurder mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg yn hwyluso'r ystyriaeth hon.

Rydym yn mawr obeithio y gwireddir amcanion y Bil o safbwynt y Gymraeg, fel y'u nodir yn yr Asesiad o effaith y Bil ar y Gymraeg (cymalau 408-413):

- “hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac wrth ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus” (cymal 409);
- “ymgorffori'r arferion gorau wrth ddatblygu manylebau a chynllunio ymarferion caffael er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg” (cymal 411); ac
- “uwchsgilio siaradwyr Cymraeg a darparu canllawiau a dogfennau caffael yn ddwyieithog [a fydd] yn cyfrannu at ddatblygu seilwaith caffael mwy cyson, wedi'i safoni, sy'n sicrhau arferion caffael cyhoeddus gwell” (cymal 412).

Fodd bynnag, er mwyn gwneud hynny mae angen cryfhau elfennau o'r Bil drwy:

---

<sup>2</sup> Gweler [Safonau Llundio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#).



- gyfeirio'n glir at y Gymraeg o fewn y Bil yng nghyd-destun gwaith teg a chaffael cyhoeddus; a
- darparu eglurder ynghylch defnydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol o'r Gymraeg a sut y bydd yn ystyried yr iaith o fewn cwrpas ei waith. Mae angen eglurder ynghylch ei statws ac a ddylid cymryd camau i'w osod o fewn fframwaith statudol Safonau'r Gymraeg, o ystyried ei waith polisi yn arbennig.

Hoffem eich cyfeirio at ein cyngor ar y Gymraeg ym maes contractio.<sup>3</sup> Mae'r cyngor wedi ei fwriadu at ddefnydd lleol ond gobeithiwn ei fod yn tystio sut mae'r Comisiynydd yn ceisio sicrhau cymorth ac yn rhoi gwerth ychwanegol i sefydliadau drwy gyfrwng ein gwaith.

Rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau uchod o ddefnydd i chi wrth i chi graffu ar y Bil. Diolch eto am y cyfle i gyfrannu at eich ymgynghoriad.

Yr eiddoch yn gywir,

Gwenith Price  
**Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg**

---

<sup>3</sup> Gweler [c-gosod-contractau-gwasanaethau-cyhoeddus.pdf \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#).